

LLWYBR PRESENNOL BWS PENWALLIS GWELLIANNAU



LLE: Penwallis

Nid yw'r llwybr bws presennol o amgylch Penwallis yn effeithlon. Mae cynllun y ffordd yn cynnwys dwy ffordd bengaead, sy'n golygu bod angen i Fws 410 facio'n ôl a newid cyfeiriad yng nghanol ei lwybr, ger Heol Glyndŵr. Mae hyn yn golygu nad oes digon o amser iddo wasanaethu Penwallis.

Mae ardal Penwallis yn gartref i nifer o deuluoedd, yr henoed a phobl fregus sy'n dibynnu ar y gwasanaeth bws i gael mynediad i wasanaethau addysg, gofal iechyd, siopa a chyfleusterau hamdden. Ar hyn o bryd, nid yw'r ardal yn cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan y gwasanaeth bws oherwydd isadeiledd y ffordd.

Mae'r cynigion yn cynnwys agor y ffordd pengaead presennol ar Heol Caradog i Dan y Bryn a Heol Glyndŵr drwy ddarparu mynediad sy'n blaenoriaethu bysiau. Byddai hyn yn gwella gwasanaeth Bws 410 ac yn galluogi cymuned Penwallis i gael mynediad at y gwasanaeth bws mewn lleoliad cyfagos.

Byddai'r llwybr arfaethedig yn dilyn Heol Preseli, troad i'r dde i Benwallis, troi i'r chwith i Heol Caradog ac yna i Dan y Bryn i wasanaethu'r arhosfan bysiau ar Heol Glyndŵr.

Bws Llwybr Presennol




Nid yw'r llwybr bysiau presennol yn cyrraedd ardal Penwallis yn llawn;

Yn hytrach, mae'n dychwelyd ar y llwybr gwreiddiol ac yn troi o gwmpas.

Yn y cynllun arfaethedig byddai'r bws yn galu gwasanaethu'r rhan fwyaf o'r cymdogaeth

Bws Llwybr Arfaethedig



Eglurhad:

- Adelladwaith tarmac arfaethedig
- Palmant botymog llwydfelyn arfaethedig


Disgrifiad:

- Gosod cysgodfan fysiau gaeedig
- Gosod marciau ffordd ar gyfer safle bws
- Mantais:
 - Darperir cysgodfan fysiau i gwsmeriaid
- Anfantais:
 - Gallai bysiau achosi oedi ar y ffordd

Noder:

Mae'r wybodaeth at ddibenion enghreifftiol yn unig ac mae'n bosibl y bydd yn newid yn seiliedig ar broffil ac amodau presennol y tir, ecoleg, draenio, cyfleustodau, perchnogaeth y tir ac ati.

Nid yw pob arwydd traffig i raddfa



Rhwystrau presennol i'r gwasanaeth bysiau ar Heol Glyndŵr a Heol Caradog



PCC Transport Strategy Team



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government